

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2017 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc  
Amser: 09.00 0300 200 6565  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 29)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-05-742 Peidiwch â Gadael i Forsythia Gau!  
(Tudalennau 30 – 35)

2.2 P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru  
(Tudalennau 36 – 49)

2.3 P-05-744 Atal Gasympio; Dilyn y Broses Brynu yn yr Alban  
(Tudalennau 50 – 55)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

#### Economi a'r Seilwaith

The following three items will be grouped together for consideration

3.1 P-04-475 Yn eisiau – Bysiau i Feirionnydd  
(Tudalen 56)

3.2 P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo  
(Tudalen 57)

3.3 P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru  
(Tudalen 58)



- 3.4 P-04-686 Dylid Gosod System Goleuadau Traffig yng Nghylchfan Cross Hands  
(Tudalen 59)
- 3.5 P-05-729 Cael Gwared ar Gyfyngiadau Cyflymder ar yr M4 wrth Dwnelau Bryn-glas  
(Tudalennau 60 – 61)
- 3.6 P-05-733 Dim gweithredu pellach ar Barthau Perygl Nitradau (NVZ) yng Nghymru o gwbl  
(Tudalennau 62 – 67)
- lechyd
- 3.7 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru  
(Tudalennau 68 – 73)
- 3.8 P-04-570 Argaeledd Anghyfartal o Ran Triniaethau Nad Ydynt Wedi'u Harfarnu'n Genedlaethol Gan GIG Cymru  
(Tudalennau 74 – 77)
- 3.9 P-05-699 Cronfa Driniaeth i Gymru – rhaid dod â'r Loteri Cod Post ynghylch lechyd i ben  
(Tudalen 78)
- 3.10 P-05-693 Rhowch y Brechlyn Llid yr Ymennydd B i Bob Plentyn yng Nghymru am ddim  
(Tudalennau 79 – 87)
- Addysg
- 3.11 P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru  
(Tudalennau 88 – 95)
- 3.12 P-05-704 Dod ag Arholiadau mis Ionawr yn ôl ar gyfer Myfyrwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol  
(Tudalen 96)
- 3.13 P-05-722 Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig  
(Tudalennau 97 – 108)

## **Amgylchedd a Materion Gwledig**

### **3.14 P-04-439 Diogelu coed hynafol a choed treftadaeth Cymru ymhellach**

(Tudalennau 109 – 110)

## **Gyllid a Llywodraeth Leol**

### **3.15 P-04-681 Caniatáu i'r Cyhoedd Recordio Cyfarfodydd Llywodraeth Leol yng Nghymru**

(Tudalennau 111 – 113)

### **3.16 P-05-730 Cyllid ac Ariannu Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 114 – 117)

## **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

## **5 Adolygiad o'r System ddeisebau Cymru y Cynulliad Cenedlaethol**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

## **P-05-742 Peidiwch â Gadael i Forsythia Gau!**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Forsythia Youth Centre ar ôl casglu 74 llofnod. Mae'r ddeiseb wedi casglu 533 o lofnodion ar wefan e- ddeiseb arall.

### **Geiriad y ddeiseb**

Mae Canolfan Ieuenctid Forsythia mewn perygl o gael ei chau oherwydd ansicrwydd ynghylch ei threfniadau cyllido gan raglen Llywodraeth Cymru, Cymunedau yn Gyntaf.

Mae Canolfan Ieuenctid Forsythia yn gwasanaethu pobl ifanc yn rhad ac am ddim, ac mae ar agor:

- 4 noson yr wythnos am 51 wythnos y flwyddyn;
- Yn ystod y dydd a'r nosweithiau drwy gydol gwyliau'r ysgol;
- Yn ystod y penwythnos os oes gwaith prosiect i'w gwblhau.

Mae gan Forsythia o leiaf 50 o bobl ifanc rhwng 11-20 oed yn bresennol bob nos yn ddi-ffael, a'r rheini o ardaloedd Y Gurnos, Galon Uchaf, Pant, Dowlais a Phen-y-Darren.

Heblaw am Ganolfan Ieuenctid Forsythia, ni fyddai gan bobl ifanc le diogel i fynd iddo o fewn eu cymuned, ac ni fyddai ganddynt yr unman arall i fynd iddo oherwydd nad oes digon o ddarpariaeth i bobl ifanc.

Mae Canolfan Ieuenctid Forsythia yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosiectau ieuenctid megis 'Commit to quit' gydag Ash Cymru, prosiectau Erasmus+ ar 'Agweddau a Gwerthoedd Gwaith Ieuenctid', a'r 'prosiect Agenda' mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd.

Mae cyfle i'r bobl ifanc hefyd ddefnyddio sefydliadau megis Drug Aid Cymru a chymryd rhan mewn prosiectau Iechyd Rhywiol, rhaglenni Rhoi'r Gorau i Ysmygu, rhaglenni i gynyddu hyder a gwella iechyd meddwl, cânt ennill sgiliau a chymwysterau, a derbyn cymorth mewnol gan gan weithwyr ieuenctid cymwys.

Mae'r bobl ifanc a'r gweithwyr yn pryderu'n fawr am yr ansicrwydd ynghylch trefniadau cyllido Cymunedau yn Gyntaf oherwydd heb y cyllid hwn, bydd yn rhaid i Forsythia gau.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau a gaiff eu gwneud i raglen Cymunedau yn Gyntaf yn gwarchod Canolfan Ieuentid Forsythia rhag cael ei gau.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

1. Mae'r bobl ifanc sydd wedi bod ynghlwm â Chanolfan Ieuentid Forsythia wedi bod yn rhan o ymgyrch i wella diogelwch yn y gymuned, gan lwyddo i gael croesfan sebra wedi'i gosod y tu allan i'r Ganolfan Ieuentid, goleuadau wedi'u gosod ar heolydd ger yr ysbyty, a chau'r hen danlwybr peryglus a oedd yn llawn o offer a ddefnyddir i gymryd cyffuriau.
2. Mae'r bobl ifanc yn mynd i ysgolion lleol ac i Goleg Merthyr Tudful i roi addysg ar roi'r gorau i ysmegu.
3. Cydweithiodd pobl ifanc Forsythia â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mhedwerydd tymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gymryd rhan mewn cyfarfod grŵp ffocws gydag aelodau o'r Pwyllgor i drafod yr ymchwiliad newydd i Sylweddau Seicoweithredol.
4. Mae Canolfan Ieuentid Forsythia wedi ennill 18 o wobrwyon dros y 13 blynedd ddiwethaf yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
5. Mae pobl ifanc Forsythia wedi casglu 533 o lofnodion gan ddefnyddio [change.org](https://www.change.org) i hybu'r ddeiseb.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru

## Canolfan Ieuentid Forsythia

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Mawrth 2017  
Petitions Committee | 7 March 2017

### Briff Ymchwil

**Rhif y ddeiseb:** P-05-742

**Teitl y ddeiseb:** Atal Forsythia rhag Cau

**Testun y ddeiseb:** Mae Canolfan Ieuentid Forsythia mewn perygl o gael ei chau oherwydd ansicrwydd ynghylch ei threfniadau cyllido gan raglen Llywodraeth Cymru, Cymunedau yn Gyntaf.

Mae Canolfan Ieuentid Forsythia yn gwasanaethu pobl ifanc yn rhad ac am ddim, ac mae ar agor:

- 4 noson yr wythnos am 51 wythnos y flwyddyn;
- Yn ystod y dydd a'r nosweithiau drwy gydol gwyliau'r ysgol;
- Yn ystod y penwythnos os oes gwaith prosiect i'w gwblhau.

Mae gan Forsythia o leiaf 50 o bobl ifanc rhwng 11-20 oed yn bresennol bob nos yn ddi-ffael, a'r rheini o ardaloedd Y Gurnos, Galon Uchaf, Pant, Dowlais a Phen-y-Darren.

Heblaw am Ganolfan Ieuentid Forsythia, ni fyddai gan bobl ifanc le diogel i fynd iddo o fewn eu cymuned, ac ni fyddai ganddynt yr unman arall i fynd iddo oherwydd nad oes digon o ddarpariaeth i bobl ifanc.

Mae Canolfan Ieuentid Forsythia yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosiectau ieuentid megis 'Commit to quit' gydag Ash Cymru, prosiectau Erasmus+ ar 'Agweddau a Gwerthoedd Gwaith Ieuentid', a'r 'prosiect Agenda' mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd.

Mae cyfle i'r bobl ifanc hefyd ddefnyddio sefydliadau megis Drug Aid Cymru a chymryd rhan mewn prosiectau Iechyd Rhywiol, rhaglenni Rhoi'r Gorau i Ysmygu, rhaglenni i gynyddu hyder a gwella iechyd meddwl, cânt ennill sgiliau a chymwysterau, a derbyn cymorth mewnol gan weithwyr ieuentid cymwys.

Mae'r bobl ifanc a'r gweithwyr yn pryderu'n fawr am yr ansicrwydd ynghylch trefniadau cyllido Cymunedau yn Gyntaf oherwydd heb y cyllid hwn, bydd yn rhaid i Forsythia gau.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod

unrhyw newidiadau a gaiff eu gwneud i raglen Cymunedau yn Gyntaf yn gwarchod Canolfan Ieuenctid Forsythia rhag cael ei chau.

## Cymunedau yn Gyntaf

[Cymunedau yn Gyntaf](#) yw prif raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Dechreuodd yn 2001, ond ad-drefnwyd y rhaglen yn 2012 i wella perfformiad ac atebolrwydd. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn anelu at "gau'r bylchau economaidd, addysg/sgiliau ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig a rhai mwy cefnog", gyda'r nod tymor hir o "gyfrannu at liniaru tlodi parhaus". Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu cyllid i 19 o 'gyrff cyflawni arweiniol' ar gyfer 52 o ardaloedd gwahanol a elwir yn 'glostyrau', sydd wedyn yn dosbarthu arian i brosiectau unigol.

Ym mis Chwefror 2017 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y byddai'r [Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei diddymu'n raddol](#). Yn ystod y cyhoeddiad hwnnw dywedodd:

"Rwy'n ymwybodol o'r effaith bosibl ar unigolion a chymunedau. Felly, byddaf yn mabwysiadu dull gofalus wrth fwrw ymlaen, gan geisio cadw rhai o'r agweddau mwyaf effeithiol ar y gwaith a wnaethpwyd gan Cymunedau yn Gyntaf. Byddaf yn sicrhau bod gan y prif gyrff cyflenwi ddigon o amser ac adnoddau i gynllunio'r pontio. Ac felly, rwyf wedi penderfynu y bydd cyllid, ar 70 y cant o'r lefelau presennol, yn cael ei ddarparu hyd at fis Mawrth 2018. Byddaf yn sefydlu cronfa etifeddiaeth gwerth £6 miliwn, i'w chyflwyno ym mis Ebrill 2018 a fydd yn galluogi awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â chymunedau a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, i gynnal rhai o'r asedau cymunedol neu'r ymyraethau mwyaf effeithiol a ddatblygwyd gan Cymunedau yn Gyntaf."

Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet sylwadau hefyd yn benodol ar [liniaru unrhyw effaith bosibl ar blant a phobl ifanc](#):

"Mae buddsoddi yn ein plant yn fuddsoddiad ar gyfer y tymor hir. Dyma'r dull mwyaf cynaliadwy o adeiladu dyfodol mwy llewyrchus.

Rwyf wedi fy nghalonogi gan yr ymatebion cadarnhaol iawn a gafwyd hyd yn hyn i'r gwaith o ddatblygu parthau plant, a sefydlu canolfan ACE i helpu sefydliadau, cymunedau ac unigolion ledled Cymru i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a all gael effaith mor ddinistriol ar gyfleoedd bywyd i blant.

Bydd y mentrau hyn, ynghyd â'n buddsoddiad parhaus yn rhaglenni llwyddiannus Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, yn sicrhau bod cefnogaeth gynhwysfawr i blant wrth iddynt dyfu'n oedolion."

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad adroddiad yn dilyn ei ymchwiliad ar [Waith Ieuenctid](#). Cafodd bob un o'r argymhellion eu derbyn naill ai yn llawn neu mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. Mae ymateb llawn Llywodraeth Cymru ar gael ar [wefan](#) y Cynulliad ac mae trawsgrifiad o'r drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar gael yma: [Cofnod y Trafodion, 8 Chwefror 2017](#)

Disgwylir datganiad gan Alun Davies, y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg ar "Ddyfodol Cyflenwi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru" ddydd Mawrth 21 Mawrth 2017.

Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn destun craffu gan bwyllgorau'r Cynulliad ar sawl achlysur. Yn fwyaf diweddar, clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar [16 Chwefror 2017](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Carl Sargeant AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-742  
Ein cyf/Our ref CS/00134/17

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

 February 2017

Dear Mike

Thank you for your letter of 24 January following your receipt of Petition P-05-742 "Stop Forsythia Closing".

I appreciate the concern of the young people and workers who have signed the petition but, when I made my statement on resilient communities on 11 October, I made clear I wanted to look at whether Communities First is still the most effective and appropriate way to tackle poverty and deliver for communities across Wales. In my statement, I also signalled the start of a broad programme of engagement to gather people's views on building resilient communities. An important part of the engagement has been to consider the possible impact of any potential future decisions on people, communities and community buildings and we have therefore gathered detailed assessments from our Communities First Lead Delivery Bodies.

The first part of the engagement programme, relating to the future of Communities First, closed on 15 January. After analysis of the responses, I will be making another statement in shortly.

Yours sincerely



**Carl Sargeant AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales](mailto:Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Eitem 2.2

### **P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan David Sedley ar ôl casglu 222 llofnod.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau gweithredu yn erbyn masnachu mewn anifeiliaid egsotig sy'n cael eu dal a'u magu ar gyfer y fasnach anifeiliaid anwes yng Nghymru. Dylai hefyd wahardd trwyddedu pob busnes sydd ynghlwm â'r fasnach ddinistriol, greulon ac anfoesegol hon, gydag eithriadau clir ar gyfer canolfannau achub a chanolfannau achub trwyddedig.

Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ddilyn esiampl Llywodraeth yr Alban, sydd wedi ymrwymo i adolygu masnachu a mewnfario anifeiliaid egsotig ar gyfer y fasnach anifeiliaid anwes yn yr Alban ym mis Chwefror 2015, dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Amgylchedd. Er mwyn i Gymru gael ei chymryd o ddifrif yn y gymuned gadwraeth fyd-eang, rydym o'r farn na allwn gael ein gweld yn caniatáu i'r fasnach hon barhau yn ein gwlad ein hunain. Mae hyn yn amlygu pryderon Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA), y Federation of Veterinarians of Europe (FVE) a'r RSPCA. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau a gaiff eu gwneud i raglen Cymunedau yn Gyntaf yn gwarchod Canolfan Ieuenctid Forsythia rhag cael ei gau.

#### **Gwybodaeth ychwanegol**

Mae anifeiliaid fel mwncïod, 'meerkats', ymlusgiaid a chrwbanod yn anifeiliaid gwyllt sy'n perthyn i'w cynefin naturiol, ac ni ddylent fod mewn cewyll a thanciau gwydr yng nghartref rhywun. Caiff dros 1000 o rywogaethau o famaliaid, adar, infertebratau, ymlusgiaid, amffibiaid a physgod eu magu a'u dal ar gyfer y fasnach anifeiliaid anwes egsotig. Ein dadl ni yw mai dim ond yn eu cynefinoedd naturiol y gellir bodloni anghenion cymdeithasol, corfforol ac ymddygiadol cymhleth yr anifeiliaid hyn. Hefyd, ceir tystiolaeth gref sy'n cysylltu'r fasnach mewn anifeiliaid egsotig â dinistrio cynefinoedd a difodiant rhywogaethau yn y gwyllt. Ochr yn ochr â dioddefaint anifeiliaid o'r fath wrth deithio – gan gynnwys llawer o gofnodion am farwolaethau – gall anifeiliaid ifanc dyfu i fod yn oedolion peryglus a all fynd dros

ben llestri mewn amgylcheddau domestig nad ydynt yn addas i fodloni eu hanghenion lles am fwy o le a bwyd.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Abertawe
- Gorllewin De Cymru

## Deiseb P-05-743: Rhowch derfyn ar fasnachu

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Mawrth 2017

Petitions Committee | 7 March 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-743

Teitl y ddeiseb: Rhowch derfyn ar fasnachu anifeiliaid anwes egsoftig yng Nghymru

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau gweithredu yn erbyn masnachu mewn anifeiliaid egsoftig sy'n cael eu dal a'u magu ar gyfer y fasnach anifeiliaid anwes yng Nghymru. Dylai hefyd wahardd trwyddedu pob busnes sydd ynghlwm â'r fasnach ddinistriol, greulon ac anfoesegol hon, gydag eithriadau clir ar gyfer canolfannau achub a chanolfannau achub trwyddedig. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ddilyn esiampl Llywodraeth yr Alban, sydd wedi ymrwymo i adolygu masnachu a mewnfario anifeiliaid egsoftig ar gyfer y fasnach anifeiliaid anwes yn yr Alban ym mis Chwefror 2015, dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Amgylchedd. Er mwyn i Gymru gael ei chymryd o ddifrif yn y gymuned gadwraeth fyd-eang, rydym o'r farn na allwn gael ein gweld yn caniatáu i'r fasnach hon barhau yn ein gwlad ein hunain. Mae hyn yn amlygu pryderon Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA), Ffederasiwn Milfeddygon Ewrop (FVE) a'r RSPCA.

Mae anifeiliaid fel mwnciod, 'meerkats', ymlusgiaid a chrwbanod yn anifeiliaid gwyllt sy'n perthyn i'w cynefin naturiol, ac ni ddylent fod mewn cewyll a thanciau gwydr yng nghartref rhywun. Caiff dros 1000 o rywogaethau o famaliaid, adar, infertebratau, ymlusgiaid, amffibiaid a physgod eu magu a'u dal ar gyfer y fasnach anifeiliaid anwes egsoftig. Ein dadl ni yw mai dim ond yn eu cynefinoedd naturiol y gellir bodloni anghenion cymdeithasol, corfforol ac ymddygiadol cymhleth yr anifeiliaid hyn. Hefyd, ceir tystiolaeth gref sy'n cysylltu'r fasnach mewn anifeiliaid egsoftig â dinistrio cynefinoedd a difodiant rhywogaethau yn y gwyllt. Ochr yn ochr â dioddefaint anifeiliaid o'r fath wrth deithio – gan gynnwys llawer o gofnodion am farwolaethau – gall anifeiliaid ifanc dyfu i fod yn oedolion peryglus a all fynd dros ben llestri mewn amgylcheddau domestig nad ydynt yn addas i fodloni eu hanghenion lles am fwy o le a bwyd.

## Cefndir

### Anifeiliaid anwes egsoftig yng Nghymru

Roedd [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014–15](#), a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, yn amcangyfrif bod tua 4.2 y cant o aelwydydd Cymru yn cadw aderyn fel anifail anwes, a bod 1.4 y cant yn cadw ymlusgiad fel anifail anwes. Nododd [arolwg RSPCA Cymru \(PDF 1.22MB\)](#) yn 2015 bod 9 y cant o aelwydydd Cymru yn berchen ar barot, neidr, madfall neu fwnci, neu wedi bod yn berchen ar un o'r anifeiliaid hynny yn y gorffennol. Mae [Cymdeithas Cynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes](#), neu'r PFMA, yn amcangyfrif y cadwyd 1.3 miliwn o adar, nadroedd, crwbanod a môr-grwbanod fel anifeiliaid anwes mewn aelwydydd yn y DU yn 2015, ac mae [Ffederasiwn Brydeinig yr Ymlusgolegwyr \(PDF 2.99MB\)](#) yn amcangyfrif y cedwir dros 7 miliwn o ymlusgiaid ac amffibiaid fel anifeiliaid anwes. Yn 2016, cyflwynodd [Canolfan Derbyn Anifeiliaid Heathrow](#) adroddiad yn nodi y bu i 200,000 o ymlusgiaid gyrraedd y DU.

### Pryderon ynghylch anifeiliaid anwes egsoftig

Gall anifeiliaid anwes egsoftig fod ag anghenion gofal a all fod yn heriol ac yn gostus i'w diwallu, ac mae arbenigwyr milfeddygol weithiau yn anodd eu cael. Mae rhanddeiliaid yn nodi eu pryderon bod prynu anifeiliaid anwes heb y lefel ddigonol o wybodaeth neu heb baratoi yn ddigonol yn gallu arwain at amddifadu neu greulondeb, hyd yn oed os yw hynny'n anfwriadol. [Mae RSPCA Cymru \(PDF 1.22MB\)](#) yn nodi i'r sefydliad dderbyn 407 o gwynion o greulondeb tuag at bysgod, adar egsoftig a mamaliaid yng Nghymru yn 2014. Rhwng 2012 a 2014, erlynodd RSPCA naw diffynnydd yng Nghymru am droseddau a oedd yn ymwneud ag anifeiliaid anwes egsoftig. Ymhlith yr achosion a oedd yn ymwneud ag anifeiliaid anwes egsoftig, roedd [mwnci Marmoset a gafodd ei ganfod yng Nghasnewydd](#), menyw [a gafodd ei brathu gan beithon 3 metr o hyd yn Abertawe](#), a [draig farfog a anfonwyd yn y post i siop anifeiliaid anwes yng Nghaerdydd](#). Ynghlwm wrth rywogaethau peryglus neu wenwynig, mae risgiau i iechyd a diogelwch unigolion. [Mae data GIG Cymru ynghylch derbyniadau ysbyty](#) ar gyfer 2015/16 yn cynnwys chwe derbyniad oherwydd brathladau a chyswllt ag ymlusgiaid a phryfed cop.

Yn fwy diweddar, mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd mewn gwerthu anifeiliaid anwes dros y we. Awgrymir y gellir cael gafael ar ystod o rywogaethau yn hawdd ac yn sydyn ar y we, gan arwain at bobl yn prynu heb ystyried y peth yn iawn. Mae rhanddeiliaid yn dadlau nad yw gwerthwyr yn ddarostyngedig i'r un meini prawf llym ag ydyw siopau anifeiliaid anwes, gan arwain at warchodaeth brin o safbwynt yr anifeiliaid ac o safbwynt y prynwyr. Canfu'r ymchwiliad ['One Click Away'](#), ar unrhyw bryd, yr hysbysebair tua 25,000 o anifeiliaid anwes egsoftig ar werth ar y chwe gwefan a astudiwyd.

Wrth ymateb i argymhelliad a wnaed mewn [ymchwiliad i brimataid fel anifeiliaid anwes](#), [nododd Llywodraeth y DU](#):

The Government considers that regardless of the age of the Pet Animals Act 1951, it still provides appropriate protection for the welfare of animals sold as pets. The 1951 Act makes clear that a pet shop is: the "*carrying on at premises of any nature (including a private dwelling) of a business of selling animals as pets...*". This would therefore include businesses selling primates over the internet. Even a business selling over the internet must have premises where the animals are held and therefore should be licensed and subject to inspection.

Roedd yr ymateb hefyd yn crybwyll gwaith y [Grŵp Cyngchori ynghylch Hysbysebu Anifeiliaid Anwes](#). Caiff y Grŵp gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n hybu'r angen i hysbysebu anifeiliaid anwes yn gyfrifol trwy addysgu a chydweithio rhwng sefydliadau lles a gwefannau.

## Deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anifeiliaid anwes egsoftig

### Deddfwriaeth yng Nghymru

Mae Adran 9 o [Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006](#), sy'n gymwys i Gymru a Lloegr, yn gosod dyletswydd ar berchnogion anifeiliaid anwes i ofalu am anghenion sylfaenol eu hanifail, mae'n cyflwyno dirwyon sy'n fwy llym am amddifadu neu greulondeb, ac mae'n rhoi rhagor o bwerau i orfodwyr allu ymyrryd. Mae'r llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y Cadeirydd ynghylch y ddeiseb hon yn nodi fel a ganlyn:

It is the owner's responsibility to exercise a duty of care and to be responsible. Severe penalties can be imposed by the courts for not fulfilling such obligations, although I recognise it is better to avoid problems than to deal with them.

Defnyddiwyd y ddogfen [The Good Practice Guidelines for the Welfare of Privately Kept Reptiles & Amphibians \(PDF 2.99MB\)](#), a gefnogir gan Lywodraeth y DU, yn sail i [Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006](#). Nid yw mynd yn groes i'r canllawiau yn drosedd ynddo'i hun, ond os bydd unrhyw gyhuddiadau yn cael eu gwneud o dan Adran 9 o'r Ddeddf, gall y Llys gyfeirio at y canllawiau. Mae'r ddogfen [Code of Practice for the Welfare of Privately Kept Non-Human primates \(the Primate Code\) 2010 \(PDF 771KB\)](#) yn gymwys i Loegr yn unig.

Mae gofyniad yn y [Ddeddf Anifeiliaid Peryglus 1976](#) i berchnogion anifeiliaid fod â thrwydded i gadw [mathau penodol o anifeiliaid a ystyrir yn wyllt, peryglus neu egsoftig](#). Ceir trwyddedau gan awdurdodau lleol wedi iddynt gynnal asesiad ar y perchennog a'r fangre lle y bydd yr anifail yn cael ei gadw.

Mae'r [Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951](#) yn diogelu lles anifeiliaid a werthir fel anifeiliaid anwes, gan ei gwneud yn ofynnol ar unrhyw berson sy'n cadw siop anifeiliaid anwes i ddal trwydded gan y cyngor lleol.

Mae Adran 14(1) o'r [Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981](#) yn ei gwneud yn drosedd i ryddhau anifail nad ydyw'n frodorol, neu adael i'r anifail hwnnw ddianc i fywyd gwyllt. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu mewnfario rhywogaeth nad ydyw'n frodorol i'r DU [wneud cais am drwydded](#)

Mae'r [Ddeddf Trwyddedu Sŵ 1981 \(PDF 775KB\)](#) yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arolwg a thrwyddedu pob sŵ ym Mhrydain.

Mae'r [Gorchymyn Lles Anifeiliaid wrth Gludo \(Cymru\) 2007](#) yn ymdrin â chludo anifeiliaid asgwrn cefn mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd.

Yn neddfwriaeth bresennol Cymru, nid oes unrhyw fesurau i drwyddedu sefydliadau lles anifeiliaid, neu warchodfeydd. Nododd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2012 (PDF 2857KB) gan [Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru](#) bryderon sydd ynghlwm wrth y diffyg rheoleiddio yn y maes hwn. [Mae erthygl yn y Blog 'Pigion'](#) yn cynnig rhagor o fanylion. Yn sgil yr adroddiad, daeth deiseb i law, ac mae manylion y ddeiseb i'w gweld isod yn y rhan ar 'gamau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

### **Cyfraith a chonfensiwn ynghylch masnach rhyngwladol**

Mae'r [Confensiwn ar Fasnach Rhyngwladol Rhywogaethau mewn Perygl a Fflora a Ffawna gwyllt](#) (CITES) yn amcanu i sicrhau nad yw masnachu anifeiliaid a phlanhigion gwyllt yn peryglu eu goroesiad. Mae [miloedd o rywogaethau sydd o dan reolaeth](#) angen trwydded ar gyfer eu mewnfario, eu hallfario ac unrhyw fudd masnachol a wneir ohonynt. Yr [Awdurdod Rheoli CITES](#) dynodedig yn y DU yw adran Bywyd Gwyllt Defra. Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion sy'n dyfarnu trwyddedau a thystysgrifau.

Yn 2007, cyflwynwyd [gwaharddiad parhaol ar fewnfario adar gwyllt sydd wedi cael eu dal i'r UE](#). Ymateb oedd hyn yn bennaf i'r ffliw adar, ond canmolwyd hynny gan sawl NGO gan gynnwys yr [Ymddiriedolaeth Parotiaid Gwyllt](#), yr [RSPB](#) a [Chymorth Anifeiliaid](#) oherwydd y canlyniadau o ran lles a chadwraeth.

### **Trwyddedu Anifeiliaid**

Fel arfer, trwyddedir anifeiliaid ar sail 'rhestr negatif', sy'n golygu bod cyfyngiadau o ran y rhywogaethau penodol y gellir cael gafael arnynt, neu fod angen trwydded i gael anifeiliaid o'r fath. Y dull a ddefnyddir yn y DU yw defnyddio [sawl rhestr negatif](#), sy'n golygu bod angen edrych ar sawl gofyniad deddfwriaethol fel ei gilydd. Heb ddiweddariadau parhaus, awgrymir bod posibilrwydd na cheir cyfeiriad mewn deddfwriaeth ar gyfer materion a fydd yn codi. Dull arall y gellid ei ddefnyddio fyddai 'rhestrau positif', lle bo rhywogaethau sy'n addas i'w cadw gan unigolion preifat yn cael eu nodi ar un rhestr benodol. Mae pob rhywogaeth arall naill ai wedi'i gwahardd neu angen trwydded i'w chadw. Ar y diwydiant anifeiliaid anwes y mae'r baich i ddarparu tystiolaeth wyddonol sy'n dangos bod rhywogaeth yn addas i'w chadw fel anifail anwes. Ceir rhagor o wybodaeth ar y modd y gellid defnyddio rhestrau positif [ar wefan ENDCAP](#).

## Pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at y pryderon a fynegwyd gan dri sefydliad yn benodol, sef Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA), Ffederasiwn Milfeddygon Ewrop (FVE) a Chymdeithas Frenhinol Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA).

### Safbwynt RSPCA

Mae'r RSPCA yn rhan o gynghrair o elusennau [sy'n ymgyrchu o blaid gwahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes](#). Yn ei llythyr at y Cadeirydd, nododd Ysgrifennydd y Cabinet yr ymgyrch hon, gan ddweud:

Arrangements are in place for my officials to discuss the RSPCA campaign in greater detail over the coming months.

Argymhellodd RSPCA Cymru yn ei adroddiad [Materion Lles Anifeiliaid ar gyfer y Pumed Cynulliad](#) y dylai Llywodraeth Cymru wneud fel a ganlyn:

undertake a wholesale review of legislation surrounding the dealing, trading and selling of animals; including a key focus of the regulation of animals sold online.

[Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd ar les anifeiliaid gwyllt \(PDF 1.22MB\)](#) yn galw am ragor o gyllid i archwilio masnach anifeiliaid anwes egsoftig yng Nghymru, er mwyn cael system drwyddedu neu gofrestru ar gyfer gwarchodfeydd anifeiliaid.

### Safbwynt BVA

Mynegodd BVA [bryderon ynghylch lles a masnach anifeiliaid anwes egsoftig](#). Yn 2015, cyhoeddodd BVA [ddatganiad ar y cyd ar anifeiliaid anwes anhraddodiadol \(PDF 141KB\)](#) ynghyd â Chymdeithas Filfeddygol Anifeiliaid Bach Prydain (BSAVA), Cymdeithas Filfeddygol Sŵolegol Prydain (BVZS) a Chymdeithas Filfeddygol ar gyfer Pysgod (FVS). Mae'r datganiad yn cynnig nifer o argymhellion ynghylch rheoleiddio a gorfodi, gan gynnwys gwahardd mewnforio ymlusgiaid ac amffibaid gwyllt sydd wedi cael eu dal i'r UE. Mae'r BVA hefyd yn rhan o'r ymgyrch i wahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes.

### Safbwynt FVE

[Mae FVE](#) yn sefydliad ymbarél sy'n cynnwys sefydliadau milfeddygol o 38 gwlad Ewropeaidd. Yn 2013, [galwodd ar lywodraethau gwledydd Ewrop i gyfyngu ar gadw anifeiliaid egsoftig fel anifeiliaid anwes](#).

### Sefydliadau eraill

Mae sefydliadau hefyd yn ymgyrchu o blaid cadw anifeiliaid anwes egsoftig. Er enghraifft, mae Ffederasiwn Herpetologwyr Prydain yn cynnal [ymgyrch 'Hands Off Our Hobby'](#) a sefydlwyd i ymateb i gyhoeddiad adolygiad Llywodraeth yr Alban. Mae'r [ymgyrch 'Hands Off Our Hobby'](#) gan OATA (Ornamental and Aquatic Trade Association) yn gweithio i amddiffyn yr hobi o gadw pysgod addurniadol

Sefydlwyd [Cymdeithas Masnach Anifeiliaid Anwes Egsotig ac Ymlusgiaid \(REPTA\)](#) i gynrychioli barn y rheiny sydd ynghlwm wrth y fasnach ac sy'n pryderu am yr effaith bosibl a gaiff ymgyrchoedd yn erbyn anifeiliaid anwes egsotig. Mae'r cyflwyniad '[Overview of the Exotic Pet Trade in the UK](#)' (PDF 3.74MB) yn cynnig rhagor o fanylion.

## **Adolygiad yr Alban ar fasnach a mewnfario anifeiliaid egsotig.**

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at y camau gweithredu a wnaed gan Lywodraeth yr Alban. Ym mis Chwefror 2015, ymrwymodd Richard Lochhead, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Amgylchedd yn Llywodraeth yr Alban, [y byddai'n cynnal adolygiad](#) o drefniadau masnach a mewnfario anifeiliaid egsotig a gedwir fel anifeiliaid anwes. Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliodd Llywodraeth yr Alban [gyfarfod rhanddeiliaid](#). Codwyd yr adolygiad [Yn Senedd yr Alban](#) (PQ S5W-04082) ym mis Tachwedd 2016. Ymatebodd Roseanna Cunningham, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir fel a ganlyn:

The review of the exotic pet trade is part of a wider review of pet welfare, which is a substantial and on-going piece of work. Initial meetings with stakeholders have already been held on exotic pets and breeding and sale of pets and further meetings are planned to discuss what the welfare challenges are and on how animal welfare might be best assured in various situations.

Once the review is completed, proposals for changes to the current legislation and/or policies relating to pet welfare will be developed and, in due course, consulted on. It is still too early in the process to suggest what those changes might be.

Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y Cadeirydd ynghylch y ddeiseb hon yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl am ganlyniad adolygiad yr Alban. Sonnir am y camau gweithredu a wneir yn Lloegr hefyd, yn arbennig at ailstrwythuro'r trefniadau trwyddedu ar gyfer sefydliadau anifeiliaid, megis siopau anifeiliaid anwes.

## **Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru**

[Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid](#) yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid anwes. Mae ail ran y [cynllun gweithredu blynyddol](#) hwn yn rhychwantu 2016–17. Yn ei llythyr at y Cadeirydd ynghylch y ddeiseb hon, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y cynllun gweithredu, gan bwysleisio'r ymrwymiad a wnaed i adolygu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd o dan *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*. Mae hyn hefyd yn cynnwys ystyried a oes angen Codau Ymarfer ychwanegol ar gyfer rhywogaethau eraill, megis anifeiliaid egsotig. Mae gohebiaeth Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn crybwyll y Grŵp a sefydlwyd ynghylch Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith a chynghori Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

Ym mis Rhagfyr 2016, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet [ddatganiad ysgrifenedig ar Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid, gan gynnwys Syrcasau](#) a fanylodd ar y cynlluniau i ddatblygu rhaglen drwyddedu neu gofrestru er mwyn rheoli Arddangosfeydd Anifeiliaid Symudol.

## Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Roedd deiseb yn y Pedwerydd Cynulliad, sef [P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru](#) a oedd yn galw am reoleiddio gorfodol ar sefydliadau achub anifeiliaid. Trafodwyd y ddeiseb am y tro cyntaf gan Y Pwyllgor Deisebau fis Medi 2013, a daeth y trafodaethau i ben ym mis Ionawr 2016. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiad newydd gan Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, a gynhyrchodd [atodiad at yr adroddiad a fu'n wreiddiol yn sail i'r ddeiseb](#). Nodwyd y posibilrwydd o greu Cod Ymarfer ar gyfer anifeiliaid anwes egsotig, a fyddai'n cael ei gynnwys yn yr adolygiad ehangach o Godau Ymarfer Lles Anifeiliaid, yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 2 Tachwedd 2016 yn ystod y sesiwn dystiolaeth gydag [Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lesley Griffiths AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-743  
Ein cyf/Our ref LG/00245/17

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

February 2017

Dear Mike

Thank you for your letter of 31 January regarding Petition P-05-743 – End the Exotic Pet Trade in Wales.

Animals currently kept in captivity are subject to the requirements of the Animal Welfare Act 2006 and particularly the duty of care set out in section 9 of this Act. It is the owner's responsibility to exercise a duty of care and to be responsible. Severe penalties can be imposed by the courts for not fulfilling such obligations, although I recognise it is better to avoid problems than to deal with them.

In addition, (with some exceptions), a licence has to be obtained under the Dangerous Wild Animals Act 1976 (DWAA) to keep certain species. This involves an assessment being undertaken by the Local Authority to ensure the suitability of the owner and his/her premises for keeping the species. The DWAA can be found at:  
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/38>

As you are aware the RSPCA Cymru issued a briefing document on 21st October 2016 calling for a ban on keeping primates as pets in Wales

Arrangements are in place for my officials to discuss the RSPCA campaign in greater detail over the coming months.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 45

I am aware of a review being undertaken in Scotland regarding the way in which exotic pets are traded. In England, proposals to overhaul the licensing of animal establishments, including pet shops, are being actioned. We await the review in Scotland with interest as there will be similarities across the UK.

A paper has been presented to the Wales Animal Health and Welfare Framework Group for consideration on the trade of exotic pets. The Group, which was set up to support the implementation of the Framework and advise the Welsh Government on animal health & welfare issues and the paper will be discussed at a future meeting.

Within the Wales Animal Health and Welfare Framework Implementation Plan for 2016-17, a commitment exists to review the Welsh Government's Codes of Practice as published under the Animal Welfare Act 2006. This includes considering whether additional Codes of Practice are required for other species, for example exotic animals. Breach of a provision of a Code is not an offence in itself, however, the Codes can be used as evidence in court proceedings for animal welfare offences.

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

**P-05-743 End the Exotic Pet Trade in Wales – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 28.02.17**

Dear Mr Hedges,

Many thanks for your correspondence in reference to the consideration of my petition to end the sale of exotic pets in Wales (P-05-743), and for the copy of the response to your enquiry from Lesley Griffith AC/AM, Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs, received February 8.

I am grateful for this opportunity to direct your committee's attention to the following.

Ms Griffiths states that a paper on the exotic pet trade has been presented to the Wales Animal Health and Welfare Framework (AHWF) group. Please see below the Government Implementation Plan 2016-17 concerning the Wales Animal Health and Welfare Framework ( AHWF) which gives a commitment to review the Welsh Government's Codes of Practice as published under the Animal Welfare Act 2006. This includes considering whether additional Codes of Practice are required for other species. I have attached a copy of the link for ease of reference: <http://gov.wales/docs/drah/publications/160804-animal-health-welfare-framework-2016-implementation-plan-en.pdf>

It is my understanding that the Framework Group is due to meet with a reptile specialist in a forthcoming meeting. In addition, the Chief Veterinary Officer for Wales (CVO) has historically added this topic to the agenda of a UK CVO meeting to commence a UK-wide discussion.

Whilst the AHWF briefing makes it clear that the Welsh Government can begin the process to revise the Animal Welfare Codes of Practice, no specific timescales are given. Also, there does not appear to have been any progress to tighten the rules, despite the Welsh Government having had devolved powers over budgets for the Animal and Plant Health Agency (APHA) since 2011. APHA are an executive arm of the Department for Environment and Rural Affairs (DEFRA) who are very specific in their Code of Practice on implementing the Animal Welfare Act 2006 – you will find the link

here: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/218679/primate-cop.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/218679/primate-cop.pdf)

It should be possible to tighten the licensing process to ensure exotic pets are not housed with other animals and are kept in conditions appropriate to their natural

habitat, i.e. diet, temperature, bedding etc. Also, banning the import of exotic pets, thereby allowing these animals only to be traded within their existing country, would have the long-term impact of significantly reducing the industry in the UK, as well as sending out the clear message that such a trade, wherever perpetrated, is detrimental to the animals concerned and their environment. By tightening the guidelines we could, potentially, significantly reduce the number of exotic pets in Britain and thereby combat the industry domestically and abroad.

I would therefore ask that the following questions – further directed at the Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs – be foremost in the committee members' minds when considering the fate of my petition:

Will the Minister be undertaking a review of animal welfare, including the welfare of exotic pets?

What discussions have taken place between the Chief Veterinary Officer on behalf of the Minister and her counterparts in Scotland and England regarding the welfare of exotic pets?

What proposals does the Minister have to regulate the sale of exotic animals?

It may be of interest to you that 21 of 22 local authorities in Wales replied to my request for information regarding the number of licenses issued to businesses selling exotic pets (not including on the web). I can therefore report that there are 134 such licensed premises in Wales. Although I do not have the figures for the numbers of animals involved – that is, reptiles, birds, mammals and fish – it is clear that many thousands are being kept and traded. This situation – the capture, breeding, transportation, sale and care of wild animals, unsuited to lives as domestic pets in a northern clime – continues to need urgent redress.

As mentioned by Ms Griffiths in her letter to you, she is aware of the current review of the trade in exotic pets instigated by the Scottish Government. This was in response to the successful campaign launched by the charity One Kind and supported by the RSPCA, PDSA, Captured Animals Protection Society, Four Paws, Wild Futures, and Born Free Foundation amongst others. I am sure that a similar campaign here in Wales would attract an identical level of support. As I write, The Assembly is in receipt of a briefing document from RSPCA Cymru highlighting the unsuitability of keeping primates as pets, and calling for a ban on the practice.

At the very least, I am asking that the petition to end the exotic pet trade in Wales be considered for further actioning on the grounds that a wider debate of the

welfare issues occasioned by it are long overdue. I would urge that there be no complacency on the part of the committee, or concerned members thereof, as many thousands of captured wild, and domestically bred, animals are enduring unnatural and cruel lives in shops and domestic homes throughout the country, today and everyday.

I further ask the committee that short of asking The Assembly to debate a total end to the trade in exotic pets that it, at least, consider the introduction of a Positive List System. This would permit the keeping of an exotic pet only if its suitability to life in private ownership were incontrovertibly assessed by such a system using clear, transparent and evidence based criteria collated on species conservation, the dangers of invasive disease, ease of good husbandry – including proof of appropriate knowledge of needs and care – and the clear availability of care guidelines, and enforcement measures.

For your convenience I include the notification from the Scottish Government about the review instigated by The Cabinet Secretary for Rural Affairs and the Environment, Richard Lochhead:

<http://news.scotland.gov.uk/News/Review-of-exotic-pet-trade-15ea.aspx>

Thank you for your kind attention.

Sincerely, and faithfully yours,

David Sedley

# Eitem 2.3

## **P-05-744 Atal Gasympio; Dilyn y Broses Brynu yn yr Alban**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Victoria Bridle ar ôl casglu 18 llofnod.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adolygu'r ffordd yr ydym yn prynu ac yn gwerthu tai ac i asesu a fyddai'n bosibl gweithredu system fel yr un yn yr Alban i atal gasympio.munedau yn Gyntaf yn gwarchod Canolfan Ieuencid Forsythia rhag cael ei gau.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

Fy enw i yw Victoria Bridle. Roedd fy ngŵr a minnau'n arfer byw yn ne-ddwyrain Llundain a gwnaethom symud i ogledd Cymru tua thair blwyddyn a hanner yn ôl. Ychydig wythnosau'n ôl gwnaethom gynnig ar dŷ yr oeddem wedi syrthio mewn cariad ag ef. Derbyniwyd y cynnig ac roedd y tŷ Wedi'i Werthu yn Amodol ar Gytundeb. Dywedodd ein gwerthwr tai wrthym ei fod wedi dweud wrth yr asiant arall i'w dynnu oddi ar y farchnad fel nad oedd ar gael ar gyfer ymweliadau na derbyniadau mwyach. Roedd popeth yn mynd yn dda iawn hyd nes inni gael gwybod gan ein gwerthwr tai fod yr asiant arall wedi cael galwad ffôn yn dweud bod rhywun arall wedi gwneud cynnig a'i fod wedi'i dderbyn. Felly y cyfan y gwnaethom ei dalu oedd ffioedd y cyfreithwyr.

Gwnaethom sefydlu'r ddeiseb hon er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd gan fod gennym bopeth, gan gynnwys cynnig morgais, yn eu lle.

At hynny, gwnaethom hyd yn oed weld y gwerthwyr ar y dydd Sadwrn gyda'n plentyn 18 mis oed i gael golwg terfynol o gwmpas ar y gosodiadau a'r ffitiadau. Dywedodd y gwerthwyr hyd yn oed beth yr oeddent am eu gadael inni a gwnaethom ysgwyd llaw hefyd. Wrth ddweud wrth bobl eraill am hyn, roeddent yn meddwl bod gasympio yn anghyfreithlon, ond yn amlwg nid yw hynny'n wir.

Ac i goroni'r cwbl, es i at werthwr tai arall y diwrnod o'r blaen i ofyn a oedd ganddynt unrhyw beth arall ar werth. Gwnaethant hyd yn oed geisio rhoi'r tŷ y cawsom ein gasympio arno inni. Felly, maent yn amlwg yn ceisio gasympio'r bobl hyn, sy'n amlwg yn anghywir. Llofnodwch y ddeiseb hon a'i drosglwyddo i deulu a ffrindiau i'w lofnodi er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

## Dilyn y broses o brynu cartref yn yr Alban

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Mawrth 2017

Petitions Committee | 7 March 2017

### Briff Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-744

Teitl y ddeiseb: Atal gasympio; dilyn y broses brynu yn yr Alban

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adolygu'r ffordd yr ydym yn prynu ac yn gwerthu tai ac i asesu a fyddai'n bosibl gweithredu system fel yr un yn yr Alban i atal gasympio.

Fy enw i yw Victoria Bridle. Roedd fy ngŵr a minnau'n arfer byw yn ne-ddwyrain Llundain a gwnaethom symud i ogledd Cymru tua thair blwyddyn a hanner yn ôl. Ychydig wythnosau'n ôl gwnaethom gynnig ar dŷ yr oeddem wedi syrthio mewn cariad ag ef. Derbyniwyd y cynnig ac roedd y tŷ Wedi'i Werthu yn Amodol ar Gytundeb. Dywedodd ein gwerthwr tai wrthym ei fod wedi dweud wrth yr asiant arall i'w dynnu oddi ar y farchnad fel nad oedd ar gael ar gyfer ymweliadau na derbyniadau mwyach. Roedd popeth yn mynd yn dda iawn hyd nes inni gael gwybod gan ein gwerthwr tai fod yr asiant arall wedi cael galwad ffôn yn dweud bod rhywun arall wedi gwneud cynnig a'i fod wedi'i dderbyn. Felly y cyfan y gwnaethom ei dalu oedd ffioedd y cyfreithwyr.

Gwnaethom sefydlu'r ddeiseb hon er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd gan fod gennym bopeth, gan gynnwys cynnig morgais, yn eu lle.

At hynny, gwnaethom hyd yn oed weld y gwerthwyr ar y dydd Sadwrn gyda'n plentyn 18 mis oed i gael golwg terfynol o gwmpas ar y gosodiadau a'r ffitiadau. Dywedodd y gwerthwyr hyd yn oed beth yr oeddent am eu gadael inni a gwnaethom ysgwyd llaw hefyd. Wrth ddweud wrth bobl eraill am hyn, roeddent yn meddwl bod gasympio yn anghyfreithlon, ond yn amlwg nid yw hynny'n wir.

Ac i goroni'r cwbl, es i at werthwr tai arall y diwrnod o'r blaen i ofyn a oedd ganddynt unrhyw beth arall ar werth. Gwnaethant hyd yn oed geisio rhoi'r tŷ y cawsom ein gasympio arno inni. Felly, maent yn amlwg yn ceisio gasympio'r bobl hyn, sy'n amlwg yn anghywir. Llofnodwch y ddeiseb hon a'i drosglwyddo i deulu a ffrindiau i'w lofnodi er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd.

## Cefndir

Mae'r system ar gyfer prynu a gwerthu cartrefi yn y Alban yn wahanol i'r un a ddefnyddir yng Nghymru.

Yng Nghymru a Lloegr mae eiddo yn cael eu marchnata i'w gwerthu fel arfer gan werthwyr tai. Bydd y pris yn aml yn cael ei ddisgrifio fel 'cynigion o gwmpas ...' ac mae cynigion yn cael eu gwneud drwy'r gwerthwr tai sy'n gwerthu'r eiddo. Pan fydd cynnig yn cael ei dderbyn, mae hynny'n cael ei wneud 'yn amodol ar gontract'. Hyd nes i'r contractau gael eu cyfnewid gall y gwerthwr neu'r prynwr dynnu'n ôl o'r trafodiad heb gosb. Cyn i gontractau gael eu cyfnewid, bydd y darpar brynwr fel arfer yn comisiynu arolwg, yn ymgymryd â chwiliadau cyfreithiol a threfnu morgais os oes angen. Er bod eiddo yn cael ei dynnu oddi ar y farchnad yn aml pan fydd cynnig yn cael ei dderbyn yn y lle cyntaf, nid yw hyn yn wir bob amser.

Yn yr Alban, mae llawer o gyfreithwyr yn werthwyr tai hefyd. Bydd cyfreithwyr felly yn marchnata eiddo yn ogystal ag ymdrin â thrawsgludo, er bod yna hefyd werthwyr tai annibynnol. Mae eiddo fel arfer yn cael eu marchnata ar bris 'cynigion dros' gyda dyddiad cau neu am bris sefydlog. Mae angen i'r gwerthwr baratoi Adroddiad Cartref y mae'n rhaid iddo gynnwys arolwg (gan gynnwys prisiad), Tystysgrif Perfformiad Ynni a holiadur gwybodaeth am yr eiddo wedi'i lenwi gan y gwerthwr. Byddai eiddo yn gyffredinol yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad pan fydd cynnig yn cael ei dderbyn. Yna bydd y contract ar gyfer gwerthu yn cael ei drafod rhwng y partïon.

Er y gall gasympio (derbyn cynnig uwch na'r un sydd eisoes wedi ei dderbyn) ddigwydd yn yr Alban, mae'n ddigwyddiad prin oherwydd [rheolau a chanllawiau ar drawsgludo](#) Cymdeithas Cyfraith yr Alban. Mae'r canllawiau hyn yr un mor berthnasol i gyfreithwyr sy'n gweithredu fel gwerthwyr tai, ag i'r rhai sy'n gweithredu yn y broses drawsgludo.

Noda'r canllawiau na ddylai cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran gwerthwr dderbyn cyfarwyddiadau dilynol gan y gwerthwr i dderbyn cynnig gan barti arall oni bai a hyd nes bod y trafodaethau gyda'r cynigiwr gwreiddiol (darpar brynwr) wedi methu am resymau dilys nad ydynt yn gysylltiedig â'r cynnig posibl gan barti arall. Os oedd y gwerthwr yn awyddus i dderbyn cynnig uwch, heb reswm da, byddai angen iddo felly ddefnyddio cyfreithiwr arall (a fyddai'n golygu mynd i gostau ychwanegol). Mae'r canllawiau yn nodi gofynion tebyg pan fydd darpar brynwr yn ceisio gostwng ei gynnig.

## Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

